

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth



Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chysylltu â phersonél cymwys eraill o fewn lefel a chyfrifoldeb eich rôl i nodi a chefnogi anghenion corfforol a synhwyrdd unigolyn y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth neu luosog. Gall y derminoleg yn ymwneud ag "anghenion eraill" gynnwys anghenion iechyd meddwl, corfforol, lles emosiynol, anghenion lluosog ac unrhyw anawsterau ychwanegol eraill neu anabledau. Mae'r safon yn berthnasol i bob lefel. Gellir defnyddio adrannau o'r safon at ddibenion cynefino, datblygiad proffesiynol ac ar gyfer hyfforddi.

Er mai chi sy'n bennaf gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol, mae'r safon yn gofyn hefyd am gymorth rheoli i hwyluso datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu.

Ar gyfer y safon hon, mae angen i chi allu cyfrannu, neu weithio gyda phobl eraill, i nodi iechyd corfforol ac anghenion synhwyrdd unigolyn, a'i allu, neu allu'i ofalwr, i ddiwallu'r anghenion hyn o fewn y cyfyngiadau, a'r risgiau i'r sefyllfa. Dylai'r unigolyn eu hun fod yn ganolog i'r broses hon.

Dangos eich perfformiad, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth

Mae'r adrannau **meini prawf perfformiad** o dan bob elfen, a'r adran **gwybodaeth a dealltwriaeth** yn dynodi meysydd y dylech chi allu dangos eich perfformiad neu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ynddynt.

Egwyddor allweddol

Mae cyfathrebu'n sail i'r safon gyfan a'r holl safonau yn y gyfres hon. Mae'n hollbwysig bod y rheiny sy'n gweithio ym maes gwasanaethau synhwyrdd gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol a phriodol i gyfathrebu'n effeithiol â phobl a all ddefnyddio amrywiaeth o offer/technegau neu ddulliau cyfathrebu. Mae'r safon hon yn ymwneud â'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl sydd ag ystod cymhleth o anghenion, a rhaid i bob cyfathrebu fod yn briodol. Mae'n bwysig hefyd bod gweithwyr yn cydnabod yr angen am sgiliau cyfathrebu arbenigol a risg cam-gyfathrebu.

Cynnwys yr uned:

- 1 Cyfrannu i asesu a nodi ystod llawn anghenion yr unigolyn mewn partneriaeth a'r unigolyn hwnnw a phobl allweddol eraill
- 2 Cynllunio a chytuno camau gweithredu gydag unigolion i hybu'u hanghenion corfforol, meddyliol, dmosiynol ac anghenion iechyd a lles eraill
- 3 Rhoi camau ar waith a gwerthuso'u heffeithiolrwydd fel a gytunir gydag unigolion

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyraidd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cyfrannu i asesu a nodi ystod llawn anghenion yr unigolyn mewn partneriaeth a'r unigolyn hwnnw a phobl allweddol eraill

- P1 cynnal ac yn diweddar'u'ch gwybodaeth am iechyd corfforol, iechyd meddwl, anghenion synhwyraidd, datblygiad deallusol, lles cymdeithasol ac emosiynol unigolion, ac anghenion eraill yn ôl y gofyn
- P2 meithrin perthnasoedd agored ac onest gan ddefnyddio iaith sy'n briodol:
 - P2.1 i'r oedolyn
 - P2.2 i ddatblygiad y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u diwylliant a'u cefndir teuluol
- P3 annog, yn grymuso ac yn cynorthwyo unigolion a phobl arwyddocaol eraill i gyfrannu i nodi'r anghenion synhwyraidd ac anghenion eraill
- P4 cael y wybodaeth gefndir briodol ac angenrheidiol am yr anghenion synhwyraidd ac anghenion eraill
- P5 gweithio gyda'r unigolyn a phobl eraill arwyddocaol i nodi ystod lawn cryfderau ac anghenion yr unigolyn, a'i ofynion penodol
- P6 gwrando ar bryderon, yn adnabod ac yn ystyried arwyddion o newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad
- P7 sicrhau bod eich asesiad o anghenion corfforol, iechyd emosiynol ac anghenion trawsnewid yr unigolyn yn rhoi darlun sydd â'r unigolyn yn ganolog iddo, gan roi ystyriaeth lawn a phriodol i:
 - P7.1 ei anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol
 - P7.2 ei anghenion synhwyraidd
 - P7.3 ei anghenion heb fod yn rhai synhwyraidd (e.e. iselder, demensia)
 - P7.4 ei allu i ofalu am ei iechyd ei hun Safon 4 - Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyraidd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth
 - P7.5 gallu pobl eraill arwyddocaol i ddiwallu anghenion gofal iechyd ac anghenion synhwyraidd yr unigolyn
 - P7.6 trawsnewidiadau o blant i bobl ifanc i oedolyn, ac yna yn oedolyn
 - P7.7 unrhyw risg i'r unigolyn, ei ofalwr, teulu, cymuned neu ymarferwyr gofal
- P8 gofyn am gyngor a chymorth gan ffynhonnell briodol pan fydd anghenion yr unigolyn a chymhlethdod ei sefyllfa y tu hwnt i'r rôl a'ch gallu chi
- P9 defnyddio gwybodaeth am iechyd corfforol ac iechyd meddwl yr unigolyn, a'i anghenion synhwyraidd yn gyffredinol, i ddylanwadu ar gamau dilynol
- P10 esbonio gofynion yr asiantaeth a'r gofynion deddfwriaethol i rannu gwybodaeth gyda phobl eraill, i'r unigolyn yr ydych yn gweithio ag ef
- P11 cyd-drafod cytundeb gyda'r unigolyn a phobl eraill arwyddocaol ar y wybodaeth y bydd angen ei rhannu, a chyda phwy y bydd yn cael ei rhannu
- P12 sicrhau bod yr unigolyn a phobl eraill arwyddocaol yn ymwybodol o'u

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

- hawl i weld cofnodion o fewn terfynau rheoleiddio
- P13 cadw cofnodion cyflawn, cywir ac eglur o'ch asesiadau ar fformat sy'n galluogi ymarferwyr eraill eu defnyddio'n hawdd
- P14 cyfleu cofnodion o asesiadau i'r rheiny ag awdurdod yn unig i'w gweld, yn unol â gofynion sefydliadol, proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrinachedd gwybodaeth bersonol.

Cynllunio a chytuno camau gweithredu gydag unigolion i hybu'u hanghenion corfforol, meddyliol,emosiynol ac anghenion iechyd a lles eraill

Rhaid i chi allu:

- P15 cyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion a phobl arwyddocaol eraill mewn modd sy'n pwysleisio natur ddwyffordd y berthynas, a rôl yr unigolyn fel partner cyfartal gwybodus yn y broses, neu yn achos plant, gydag aelod o'u teulu neu eiriolwr
- P16 cynorthwyo'r plentyn unigol, yr unigolyn ifanc neu'r oedolyn i fynegi'i safbwynt
- P17 tawelu meddwl plant, pobl ifanc, oedolion sy'n agored i niwed a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt, drwy esbonio'r hyn sy'n digwydd
- P18 defnyddio dull cyfathrebu sy'n briodol lle mae arwyddion fod yr unigolyn yn fwy agored i niwed, er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael cymorth i fynegi'u hystod llawn o anghenion
- P19 esbonio canlyniadau'r asesiad i unigolion mewn dull, lefel a chyflymder priodol, gan ddefnyddio'u dewis ddull cyfathrebu
- P20 cytuno camau dilynol i'w cymryd gyda'r unigolyn, yn seiliedig ar:
P20.1 gydsyniad a dymuniadau'r plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn
P20.2 y wybodaeth a gafwyd o'r asesiad iechyd corfforol, anghenion synhwyrdd ac anghenion eraill yr unigolyn
P20.3 mewnbwn a gafwyd gan rolau proffesiynol gwahanol
P20.4 gwerthusiad o'r lefel risg sy'n gynhenid ym mhob dewis, gan gynnwys risg peidio â chydsynio, a'r risg felly na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud
P20.5 yr adnoddau angenrheidiol i ddiwallu anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol yr unigolyn
P20.6 blaenoriaethau'r gwasanaethau dan sylw Safon 4 - Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth
- P21 cyn i chi gyfeirio'r unigolyn i ymarferydd arall, mynnwch gytundeb yr unigolyn a rhowch gymorth ac esboniadau priodol iddo er mwyn iddo allu deall a chydweithredu gyda'r penderfyniad
- P22 cydymffurfio â meini prawf cyfeirio cytûn a darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol pan fydd yn ofynnol gwneud cyfeiriad at ymarferydd arall
- P23 darparu cyngor ac arweiniad priodol pan gytunir bod yr unigolyn a/ neu bobl eraill arwyddocaol yn gallu rheoli'u gofal iechyd eu hunain

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

- P24 darparu cymorth i alluogi unigolyn, ei ofalwr / aelodau teulu i reoli newid a thrawsnewidiadau. Er enghraifft, addasu i anabledd newydd neu ddefnyddio Technoleg Gynorthwyol newydd
- P25 cytuno camau gweithredu gyda'r unigolyn a phobl eraill arwyddocaol sy'n cyflawni cydbwysedd rhwng buddiannau'r unigolyn, a risgiau cynhenid a'r ddyletswydd gofal rheoleiddiol drwy:
 - P25.1 gynnal ffocws ar bartneriaeth a rhannu penderfyniadau
 - P25.2 annog yr unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus a chytuno atebion i feysydd risg
 - P25.3 cytuno strategaethau i reoli risg o fewn dealltwriaeth o gostau, risgiau a dewisiadau gwahanol lle bynnag y bo modd
- P26 cynnal cofnodion cywir, eglur a chyflawn o gytundebau y gwnaethpwyd gydag unigolion, a'r camau dilynol i'w cymryd
- P27 gweithredu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo o flaen y plentyn neu'r unigolyn ifanc pan fydd hynny'n briodol, a pharchu anghenion, a'r cyfyngiadau ar, weithwyr proffesiynol eraill wrth rannu gwybodaeth
- P28 cyfleu cytundebau a phenderfyniadau am gyfarfodydd, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, anghenion synhwyrdd ac anghenion eraill unigolion gyda phawb sydd ynghlwm â gweithredu neu fonitro'r camau gofynnol. Sicrhau cysondeb gyda pholisïau rheoleiddiol a sefydliadol ar gyfrinachedd.

Rhoi camau ar waith a gwerthuso'u heffeithiolrwydd fel a gytunir gydag unigolion

Rhaid i chi allu:

- P29 gweithredu a gwerthuso'r camau gweithredu a gymerwyd gyda'r unigolyn a phobl eraill arwyddocaol sy'n cyflawni cydbwysedd rhwng buddiannau'r unigolyn, a risgiau cynhenid a'r ddyletswydd gofal rheoleiddiol
- P30 nodi cyfleoedd i drafod effeithiau a chanlyniadau trawsnewidiadau gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u gofalwyr
- P31 adolygu'r proses yr ymgwymerwyd â hi, a nodi unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u gofalwyr
- P32 cofnodi'n gywir cytundebau, cynlluniau a chanlyniadau a gytunwyd gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u gofalwyr
- P33 cytuno amserlen adolygu gydag unigolion er mwyn adolygu canlyniadau cytûn a phennu cerrig milltir ymarferol ar gyfer cyflawni'r rhain
- P34 gwerthuso effeithiolrwydd cydweithredu, gweithio ar y cyd a chytundebau partneriaeth mewn perthynas â chymau gweithredu cytûn

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gwerthoedd Craidd - Defnyddio a datblygu dulliau a systemau i gyfathrebu, cofnodi ac adrodd

- K1 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu, hawliau, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth wrth gyfathrebu, cofnodi ac adrodd gydag unigolion, pobl allweddol a phobl eraill
- K2 gwybodaeth ac arfer sy'n sail i'r ymagwedd holistaidd sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n eich galluogi i weithio mewn ffyrdd sydd:
 - K2.1 yn gwneud dewisiadau a lles pennaf yr unigolyn yn ganolog i bopeth a wnewch
 - K2.2 yn darparu cymorth gweithredol i'r unigolion
 - K2.3 yn cydnabod unigrywiaeth unigolion a'u hamgylchiadau
 - K2.4 yn grymuso unigolion i gymryd cyfrifoldeb (i'r graddau y maentyn gallu gwneud hynny ac o fewn unrhyw gyfyngiadau a osodir arnynt), ac i wneud a chyfleu eu penderfyniadau eu hunain am eu bywydau, gweithredoedd a risgiau
- K3 dulliau a ffyrdd o gyfleu sydd:
 - K3.1 yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
 - K3.2 yn cefnogi hawliau pobl i gyfathrebu gan ddefnyddio'r dull, cyfrwng ac iaith sydd orau ganddynt
 - K3.3 yn foesebol ac yn cadw at unrhyw godau ymarfer sy'n berthnasol i'ch gwaith
 - K3.4 yn parchu syniadau, gwerthoedd ac egwyddorion pobl eraill
 - K3.5 yn sicrhau urddas a hawliau pobl wrth nodi a goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu
- K4 sut i ymdrin â chyfyng-gyngor a gwrthdaro moesebol ar gyfer unigolion, y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau a staff/cydweithwyr, ynglŷn â chyfathrebu, cofnodi ac adrodd
- K5 sut i herio gwybodaeth, dogfennau, systemau, strwythurau, gweithdrefnau ac arferion sy'n rhai gwahaniaethol, yn enwedig o ran anghenion cyfathrebu a gwybodaeth unigolion

Gwerthoedd Craidd - Cyfrannu at ddatblygu a chynnal arferion iach a diogel yn yr amgylchedd gweithio

Mae angen i chi wybod a deall:

- K6 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu, hawliau, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth wrth gyfrannu at ddatblygu a chynnal arferion iach a diogel yn yr amgylchedd gweithio
- K7 dulliau a ffyrdd o weithio sydd:
 - K7.1 yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyfrannu at

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

- ddatblygu a chynnal arferion iach a diogel yn yr amgylchedd gweithio
- K7.2 yn effeithiol wrth ddelio â, ac wrth herio gwybodaeth, dogfennau, systemau, strwythurau, gweithdrefnau ac arferion sy'n rhai gwahaniaethol
- K7.3 yn foesegol ac yn cadw at unrhyw godau ymarfer sy'n berthnasol i'ch gwaith
- K7.4 yn parchu syniadau, gwerthoedd ac egwyddorion pobl eraill wrth gyfrannu i ddatblygu a chynnal arferion iach a diogel yn yr amgylchedd gweithio

Gwerthoedd Craidd - Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun a phobl eraill

Mae angen i chi wybod a deall:

- K8 gwybodaeth ddiweddar o, ac ymarfer gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu, hawliau, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, a sut i ddiweddarau a datblygu eich arfer eich hun, ac arfer aelodau staff eraill ar y rhain
- K9 sut i gael mynediad at hyfforddiant a datblygiad i'ch galluogi i ymdrin â chyfyng-gyngor a gwrthdaro moesegol ar gyfer unigolion, y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau a staff

Deddfwriaeth a Pholisi a Gweithdrefnau Sefydliadol

Mae angen i chi wybod a deall:

- K10 deddfwriaeth berthnasol penodol i wledydd, a'r modd y dylai hon gyfrannu at ac arwain yr asesiad o angen fel Deddf Iechyd Meddwl 2007, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Plant 2004 a gofynion statudol mewn perthynas â "Diogelu"
- K11 eich statws rheoleiddiol a'ch pwerau a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a chadw adnoddau, a'r modd y gall y rhain amrywio mewn lleoliadau gwahanol
- K12 eich statws sefydliadol a'ch pwerau a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a chadw adnoddau
- K13 y Ddeddf Diogelu Data a'i goblygiadau i gofnodi, storio a rhannu gwybodaeth
- K14 sut y mae'r fframwaith deddfwriaeth penodol i wledydd yn effeithio ar bolisi asiantaethau, y strategaethau asesu a ddefnyddiwyd a'r wybodaeth a gasglwyd
- K15 y polisi a'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn sefyllfaoedd lle na ellir cael cydsyniad gwybodus
- K16 rolau, strwythurau a swyddogaethau'r asiantaethau gwahanol y gellir gwneud cyfeiriadau iddynt
- K17 sut i bennu a yw cyfeiriad yn briodol i wasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr asiantaeth dan sylw

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

- K18 gwybodaeth yn ymwneud â'r defnydd moesegol o dechnoleg, h.y. I gynorthwyo a grymuso'r unigolyn yn hytrach na rheoli'i ymddygiad, neu ddefnyddio technoleg yn lle cyswllt cymdeithasol
- K19 sut y gallai'r modelau amrywiol o anableddeffethio ar yr asesiad pan fydd asiantaethau eraill yn gysylltiedig
- K20 gwybod am weithdrefnau sefydliadol a fframweithiau rheoleiddio perthnasol, yn ogystal â llwybrau cyfeirio priodol o fewn eich sefydliad chi'ch hun ac i asiantaethau eraill
- K21 gwybod am adnoddau lleol a sut i gael mynediad at wybodaeth, gan gynnwys, lle bo'n briodol, asesiad cyffredin

Theori ac Arfer Da - O ran gwybodaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K22 pam ei bod yn bwysig i gofnodi sefyllfaoedd lle nad yw dewisiadau'n ymarferol oherwydd polisi asiantaethau neu gyfyngiadau adnoddau
- K23 pwy sydd â hawl mynediad i wybodaeth sy'n cael ei chadw mewn cofnodion
- K24 y wybodaeth gefndir sy'n angenrheidiol i'r asesu fynd rhagddo'n effeithiol
- K25 sut i integreiddio a chyfosod yr holl wybodaeth am anghenion corfforol, anghenion synhwyrdd ac anghenion iechyd meddwl unigolyn, er mwyn gallu'u hystyried fel cyfanrwydd, a beth i'w wneud gyda darnau o wybodaeth sydd i weld yn anghyson â'r gweddill
- K26 sut i drefnu cofnodion o asesiadau fel eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, ac yn addas i bobl eraill eu defnyddio
- K27 diben cytuno gydag unigolion os a phan fydd yn ofynnol cyfeirio at ymarferydd arall, a sut i roi gwybodaeth ddigonol a pherthnasol iddynt ar ffurf y maent yn ei deall er mwyn iddynt roi'u cydsyniad gwybodus
- K28 ansawdd, maint a math y wybodaeth y mae angen ei darparu wrth wneud cyfeiriadau, ac unrhyw wahaniaethau sy'n codi o ganlyniad i'r systemau gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio gan asiantaeth
- K29 sut i ddehongli'r wybodaeth a ddarperir gan unigolion a'u pobl eraill arwyddocaol, a bwydo hon i'r broses asesu
- K30 diben gofnodi cytundebau sy'n cael eu gwneud gydag unigolion, a sut i wneud hyn yn effeithiol
- K31 dulliau o gyfleu gwybodaeth asesu i eraill, gan gydbwysu'r ddyletswydd cyfrinachedd, unrhyw gytundebau a wneir gyda'r unigolyn, risgiau a'r ddyletswydd gofal

Theori ac Arfer Da- O ran cyfathrebu

Mae angen i chi wybod a deall:

- K32 dulliau o ymgynghori â grwpiau gwahanol, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion, eu sefydliadau neu'u grwpiau, a gwrando'n astud ar eu hadborth
- K33 dulliau ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli adborth i alluogi gwneud

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

- penderfyniadau ynglŷn â'ch cymorth
- K34 deall effaith namau lluosog. byddwch yn ymwybodol o'r posibilrwydd cam-gyfathrebu yn yr amgylchiadau hyn, ac felly cynlluniwch yn ofalus sut fyddwch yn cyfathrebu gyda'r unigolyn, a defnyddiwch neu trefnwch y dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol
- K35 dulliau iaith/ cyfathrebu a ddefnyddir i esbonio canlyniadau'r asesiad yn glir i unigolion a'u pobl eraill arwyddocaol
- K36 defnydd o iaith/ dull cyfathrebu er mwyn penderfynu ar gamau dilynol a all fod eu hangen, gan ddibynnu ar y canlyniadau o'r asesiad o iechyd corfforol, anghenion synhwyrdd ac anghenion heb fod yn rhai synhwyrdd yr unigolyn
- K37 sut i ddehongli arwyddion gan yr unigolyn ynglŷn â'i ddymuniadau, er na fydd o bosib yn cyfleu'r rhain yn glir
- K38 sut i annog unigolion a'u pobl arwyddocaol eraill i asesu'u hanghenion eu hunain, a'r rhesymau dros wneud hyn
- K39 yr ofnau a'r pryderon gwahanol a all fod gan unigolion a'u pobl eraill arwyddocaol ynglŷn â'r asesiad a'i ganlyniadau, a sut i adnabod y rhain a'u parchu, a bod yn agored ac yn onest ar yr un pryd gyda'r rheiny sydd ynghlwm
- K40 sut i annog pobl eraill arwyddocaol i gynorthwyo'r unigolyn
- K41 y modd y gall natur y berthynas rhwng yr unigolyn (unigolion) arall a'r unigolyn newid y graddau y gallwch ofyn iddo fod yn gysylltiedig, neu y byddai'r unigolyn yn dymuno iddo fod yn gysylltiedig
- K42 byddwch yn ymwybodol y gall fod yn well gan unigolion fynegi'u hunain gan ddefnyddio dull cyfathrebu gwahanol, o gymharu â'r dull sydd orau ganddynt i dderbyn gwybodaeth, ac addasu'ch ffordd o gyfathrebu'n unol â hynny
- K43 byddwch yn ddyfeisgar wrth oresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu a rhwystrau sy'n cyfyngu ar annibyniaeth y bobl yr ydych yn eu cynorthwyo.

Theori ac Arfer Da- O ran partneriaethau a chydweithio â phobl eraill

Mae angen i chi wybod a deall:

- K44 egwyddorion asesiadau'n cael eu harwain gan anghenion, a chynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer unigolion â chanddynt amrywiaeth o anghenion
- K45 y modd y gall anghenion corfforol, synhwyrdd, iechyd meddwl a thrawsnewid unigolyn fod yn gysylltiedig, ac effaith un ar y llall, a pham eu bod yn bwysig i fod yn ymwybodol o hyn, e.e. materion iechyd meddwl fel y maent yn berthnasol i unigolyn sy'n fyddar, yn drwm ei glyw, â nam ar ei olwg, yn ddall neu'n ddall a byddar.
- K46 gwybodaeth am effeithiau seicogymdeithasol a chymdeithasol negyddol posibl anabledd, a'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol a'r modd i atal hyn er mwyn galluogi unigolion ac aelodau teulu i reoli newid

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

- K47 gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion synhwyrdd cynhenid yn hytrach na rhai caffaeledig, a'r goblygiadau i ddatblygiad plant
- K48 y modd y gall prosesau heneiddio ac aeddfedu arferol ddylanwadu ar iechyd corfforol ac anghenion synhwyrdd, a'r effaith y gall hyn ei gael ar anghenion iechyd meddwl
- K49 y risgiau a all fodoli mewn camau gweithredu amrywiol i'r unigolyn, a sut i asesu'r rhain yn realistig
- K50 sut i gybdwyso risgiau, anghenion unigolyn a aseswyd, argaeledd adnoddau a blaenoriaethau gwasanaethau
- K51 gwasanaethau:
P51.1 yr adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn eich gwasanaeth eich hun a gwasanaethau eraill, gan gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn
P51.2 blaenoriaethau'r gwasanaethau ar gyfer grwpiau gwahanol, a'r modd yr effeithia'r rhain ar y gwasanaethau y gallwch chi eu darparu neu gyfeirio pobl atynt
- K52 sut i benderfynu a yw anghenion yr unigolyn yn gymwys i gael cymorth, ac os yw darparu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth yn ei gwneud yn anodd, gwybod beth i'w wneud
- K53 y trefniadau a all fod angen eu rhoi ar waith i gynnal asesiad pellach neu ymyriadau, a gallu'r gwasanaeth i ddarparu'r rhain
- K54 ymwybyddiaeth o faterion pŵer mewn lleoliadau gwaith amrywiol, ac effaith y rhain ar ganlyniadau gwasanaeth, e.e. lleoliadau cartref, lleoliadau tai gwarchod ac ati

Theori ac Arfer Da- O ran trawsnewidiadau

Mae angen i chi wybod a deall:

- K55 ystyried materion hunaniaeth, effeithiau gohiriedig newid a bod yn ymwybodol o arwyddion posibl fod rhywun yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid penodol
- K56 gwybod am effaith debygol trawsnewidiadau allweddol, fel ysgariad, profedigaeth, teulu'n chwalu, glasoed, symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, diweithdra a gadael cartref neu ofal
- K57 deall patrymau trawsnewid o blentyndod i fod yn oedolyn, a gwerthfawrogi y gall fod yn wahanol i'ch profiad chi neu brofiad blaenorol
- K58 bod yn ymwybodol fod plant a phobl ifanc mewn cyfnod bregus yn eu datblygiad yn aml pan fydd trawsnewidiadau'n digwydd, a byddwch yn ymwybodol o'r materion delio â phobl ar yr adegau hyn yn eu bywydau. yn benodol, dylech wybod sut i hybu iechyd meddwl da ymhlith plant a phobl ifanc sydd â nam ar y synhwyrdd. cyflawnir hyn orau yn aml gan wasanaethau a rhwydweithiau cymorth o ansawdd da, felly mae angen i weithwyr fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn a gallu cynnig neu gyfeirio pobl ifanc ymlaen at wasanaethau cymorth addas sy'n

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

defnyddio'u dewis iaith/ dull cyfathrebu sydd orau ganddynt

- K59 deall y gall fod angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion addysgol ychwanegol er mwyn rheoli trawsnewidiadau, a gwybod pa bryd i ofyn am gyngor arbenigol
- K60 gwybod y gall ymddygiad grwpiau cyfoedion ddylanwadu ar blant a phobl ifanc, ac y gall hyn amrywio yn ôl diwylliant

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

Gwybodaeth ychwanegol

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r safon hon wedi'u deillio o'r datganiad o ddiben allweddol¹. Mae'n rhaid i chi weithio'n unol ag egwyddorion a gwerthoedd y safonau gwasanaeth perthnasol, arweiniad a chodau ymarfer/ ymddygiad ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y pedair gwlad i gyflawni'r safon hon.

¹Diben allweddol gweithlu'r gwasanaethau synhwyrdd yw grymuso pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn cynyddu'u hannibyniaeth, eu cyfleoedd, eu cryfderau a'u sgiliau i'r eithaf.

Geirfa

Mae'r adran hon yn rhoi esboniadau o'r geiriau a'r cysyniadau allweddol sy'n cael eu defnyddio yn y safon benodol hon. Noder, mewn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, mae'n eithaf cyffredin dod o hyd i eiriau neu ymadroddion y byddwch chi'n gyfarwydd â hwy, ond rhai y gellir ym manylion y safonau, eu defnyddio mewn ffordd benodol iawn. Felly, byddem yn eich annog i ddarllen yr adran hon yn ofalus cyn i chi ddechrau gweithio gyda'r safon a chyfeirio'n ôl at yr adran hon yn ôl yr angen.

Caffaeledig

Dallineb-byddardod caffaeledig yw pan fydd rhywun yn cael ei eni heb nam ar y synhwyrdd, ac ar ryw adeg yn ei fywyd mae'n datblygu'r ddau, neu'n mae'n cael ei eni ag un nam ar y synhwyrdd ac ar ryw adeg yn ei fywyd mae'n datblygu'r ail. Gall hyn ddigwydd yn sgil damwain, salwch, cyflwr genetig, e.e. syndrom fel Usher, Alstrom, a Stickler, ac ati, neu o ganlyniad i heneiddio yn hwyrach mewn bywyd. Mewn plant a phobl ifanc, os yw'r problemau hyn yn digwydd yn hwyrach yn eu bywyd, gelwir hyn yn Ddallineb-byddardod caffaeledig.

Cymorth gweithredol

Cymorth sy'n annog y sawl sy'n Ddall a Byddar i gynyddu'i annibyniaeth i'r eithaf ac sy'n hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw. Yn achos plant a phobl ifanc byddai hyn yn berthnasol hefyd i rôl rhiant/ gofalwr neu'r plant eu hunain fel rhan o'u proses cynllunio gofal eu hunain. Natur unigryw Dallineb-byddardod yw y dylid cydnabod y gall fod angen cymorth un-i-un ar yr unigolyn er mwyn iddo aros yn annibynnol.

Gwybodaeth gefndir

Mae'n cyfeirio at hanes meddygol yr unigolyn. Mae hyn yn bwysig, oblegid er mwyn dehongli gwybodaeth/ termau meddygol gan gydweithwyr y gwasanaeth iechyd bydd angen cryn wybodaeth a gwybodaeth benodol arnoch o derminoleg, o ran anghenion synhwyrdd ac agweddau eraill ar aflonyddu ar yr ymennydd/ niwrolegol, yn ogystal ag effaith bosibl meddyginiaethau. Mae'n cyfeirio hefyd at derminoleg addysg, e.e. ar gyfer

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

adroddiadau anghenion addysgol ychwanegol, terminoleg ymarferwyr eraill a gwybodaeth gan yr unigolyn a/ neu eu pobl arwyddocaol eraill

Cyfathrebu

Mae'r safon hon yn dweud yn glir:

- Bod rhai i chi feddu ar y sgiliau i allu cyfathrebu'n effeithiol gyda'r unigolyn yr ydych yn ei gynorthwyo, neu mewn achos lle mae angen cyfathrebwyr arbenigol, trefnu'r rhain
- Y dylech ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan yr unigolyn, yn dderbyngar ac yn fynegol, yn y ffurf fwyaf priodol, a dylech wrando'n weithredol
- Bod angen i chi fod yn ymwybodol yn gyson y bydd cyfathrebu â rhywun â nam ar ei olwg yn gymhleth, a bod y risg camddeall yn un sylweddol

Anghenion cymhleth a nam ar y synhwyrdd

Mae anghenion cymhleth yn cyfeirio at achosion anabledd lluosog. Anabledd lluosog yw "lle mae un nam yn cael *effaith ganlyniadol* ar un neu fwy o anableddau. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu cymhlethu. Mae anabledd lluosog yn gofyn am ymagwedd gwbl wahanol i hynny a ddefnyddir gan weithwyr y mae eu hyfforddiant wedi canolbwyntio'n draddodiadol ar agweddau meddygol pob nam ar wahân. Mae'n ofynnol bod â gwybodaeth am ganlyniadau posibl y namau unigol, a'r sgil i wybod pa dechneg i'w defnyddio, addasu neu gyfuno, a pha bryd y bydd angen mabwysiadu dulliau newydd i ymdopi â lluosogrwydd problemau ac anfanteision".
(Ffynhonnell: CCETSW 1993)

Cynhenid

Pan fydd rhywun yn cael ei eni ag anawsterau gweld a chlywed, gelwir hyn yn Ddallineb-byddardod cynhenid. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyflyrau fel Rwbela neu CHARGE. Gall cynhenid gyfeirio hefyd at bobl sydd wedi colli'u golwg/clyw cyn caffael iaith, h.y. yn eu blynyddoedd cynnar iawn

Anfantais, gwahaniaethu ac allgáu cymdeithasol

Mae hyn yn ymwneud â hil, rhyw, crefydd, sectyddiaeth, iaith, oed, dosbarth, anabledd (gan gynnwys anabledd synhwyrdd), tlodi, diwylliant, credo a chyfeiriadedd rhywiol. Yn ymarferol, mae'n rhaid i chi roi ystyriaeth i'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol yn eich sefydliad neu asiantaeth.

Grymuso

Proses yw grymuso o alluogi unigolion (plant, pobl ifanc ac oedolion) sydd dan anfantais ar lefel bersonol a sefydliadol i gael mwy o ymreolaeth a rheolaeth dros eu bywydau

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

Unigolion

Yn y safon mae “unigolyn” yn cyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion sydd â nam ar eu golwg ac y gall fod angen gofal iechyd a/neu ofal cymdeithasol arnynt ynghyd â gwasanaethau plant, addysgol neu hyfforddi. Mae'n cyfeirio hefyd at eiriolwyr a dehonglwyr neu bobl sy'n gweithio gyda hwy i fynegi'u barn, dymuniadau neu deimladau a siarad ar eu rhan.

Materion

Mae materion yn golygu'r hyn sy'n effeithio ar unigolyn sydd ag anghenion cymhleth, neu sy'n berthnasol i'w brofiad. Nid yw'r defnydd o'r gair “mater” yn ymhlygu anhawster, ond yn hytrach agwedd ar fywyd yr unigolyn sy'n ffocws y gwaith presennol

Pobl allweddol

Mae pobl allweddol yn cynnwys: teulu, arweinwyr cyfathrebu, ymyrwyr, gweithwyr Pobl Ddall a Byddar, ffrindiau, gofalywyr, gweithiwr cymorth, model rôl, cyfeillachwr, eiriolwyr, gweithwyr sefydlu/ adsefydlu ac eraill y mae gan yr unigolyn berthynas gefnogol â hwy

Gofynion penodol

Mae'n cyfeirio at anghenion iechyd meddwl yr unigolyn, credoau a dewisiadau personol yr unigolyn, oed, rhyw a chyflwr corfforol yr unigolyn, ei anghenion cyfathrebu a synhwyrdd, cymorth emosiynol a seicolegol ac eiriolaeth.

Gweithio mewn partneriaeth

Y broses o weithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill neu sefydliadau, e.e. Optometryddion, Swyddogion Cyswllt Clinig Llygaid, Adrannau Ysbyty, y rheiny mewn addysg neu hyfforddiant, Cymdeithasau Lleol a Gwasanaethau Gwirfoddol a Chymunedol (Sefydliadau Trydydd Sector) i godi proffil materion cymorth anghenion cymhleth/ anghenion synhwyrdd lluosog, a chynnig cymorth priodol.

Blaenoriaethau

Blaenoriaethau yw'r grwpiau targed ar gyfer y gwasanaeth hwnnw, y lefel angen i unigolyn gymhwyso ar gyfer y gwasanaeth, ymrwymadau a blaenoriaethau sefydliadol, ac ymrwymadau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Adsefydlu/ sefydlu

Mae adsefydlu yn ymwneud ag ystod eang o gymorth i gynyddu annibyniaeth, sgiliau a hyder i'r eithaf. Gall adsefydlu gynnwys helpu pobl i adfer gallu neu weithrediad a gollwyd yn sgil salwch neu anafiadau.

Mae sefydlu'n diffinio'r defnydd cydlynus o fesurau meddygol, cymdeithasol, addysgol a galwedigaethol i helpu pobl ddatblygu'u gallu i weithredu. Mae hyn

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

yn cyferbynnu â helpu pobl i adfer galluedd a gollwyd yn sgil salwch neu anafiadau, yn hytrach na phobl sydd wedi'u geni â namau.

Pobl eraill berthnasol

Mae hyn yn cyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill sydd â chysylltiad â'r unigolyn.

Hawliau

Yr hawliau sydd gan unigolion:

- 1 I gael eu parchu
- 2 I gael triniaeth gyfartal a pheidio â gwahaniaethu yn eu herbyn
- 3 I gael eu trin fel unigolyn
- 4 I gael eu trin mewn ffordd urddasol
- 5 I gael preifatrwydd
- 6 I gael eu diogelu rhag perygl a niwed
- 7 I gael gofal mewn ffordd a ddewisir ganddynt
- 8 I gael mynediad at wybodaeth amdanynt eu hunain
- 9 I gyfathrebu gan ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu a'r iaith sydd orau ganddynt

Yn achos plant a phobl ifanc, mae'r hawl ganddynt i gael eu cynnwys yn weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Risgiau

Risg yw canlyniad anochel pobl yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau. Ond mae'n golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Nid oes un diffiniad penodol. Mewn gofal cymdeithasol, fel yng ngweddill bywyd, gellir edrych ar risg fel rhywbeth negyddol. Oherwydd canfyddiadau o risg, a all fod yn real neu beidio, gall unigolyn gael ei atal rhag gwneud pethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol. Felly rhaid profi ac asesu risg ganfyddedig yn erbyn buddion tebygol cymryd rhan weithredol yn y gymuned, dysgu sgiliau newydd a magu hyder. Yr hyn y mae angen ei ystyried yw canlyniad gweithred a thebygolrwydd unrhyw niwed yn ei sgil. Trwy ystyried y buddion o ran annibyniaeth, lles a dewis, dylai fod modd i unigolyn gael cynllun cymorth sy'n ei alluogi i reoli risgiau a nodir.

Mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r risg ganfyddedig neu'r risg wirioneddol ar y cyd â'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau ei hun, yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm. Yn union fel y mae cymryd risg yn ddewis personol, canfyddiadau yw lefelau risg, a dylai barn ynglŷn â lefel dderbyniol o risg fod yn benderfyniad ar y cyd.

Gwasanaethau

Mae'n cyfeirio at wasanaethau sy'n cael eu darparu gan eich sefydliad eich

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

hun neu gan asiantaethau eraill.

Pobl eraill arwyddocaol

Fe'i defnyddir yma i olygu unrhyw bobl y mae'r unigolyn yn dymuno'u cynnwys yn ei raglen ofal. Gall hyn gynnwys partner, perthynas a/ neu ffrind, ond mae hefyd yn cynnwys aelodau eraill y gymuned neu weithwyr eraill fel gwirfoddolwyr, ymarferwyr gofal eraill, eiriolwr, dehonglydd a swyddog yr heddlu neu swyddog carchar. Am resymau rheoleiddio, yn achos plant, mae pobl eraill arwyddocaol yn debygol o fod yn aelodau o'r teulu oni bai bod y plentyn yn destun gorchymyn

Model Cymdeithasol o anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o anabledd yn dweud yr achosir anabledd **gan y modd y mae cymdeithas wedi'i threfnu**, yn hytrach na chan nam unigolyn* neu nodwedd wahanol unigolyn.

Mae'r Model Cymdeithasol o anabledd yn edrych ar ffyrdd o <diddymu> **rhwystrau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau bywyd** i bobl â namau neu wahaniaethau.

Pan gaiff y rhwystrau eu diddymu, gall pobl anabl fod yn annibynnol ac yn gyfartal yn y gymdeithas, gyda dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Datblygwyd y Model Cymdeithasol o anabledd gan bobl anabl am nad oedd y model meddygol traddodiadol yn esbonio'u profiad personol o anabledd nac ychwaith yn helpu i ddatblygu ffyrdd mwy cynhwysol o fyw. (*Diffinnir nam fel terfyn gweithrediad corfforol, meddyliol neu synhwyrdd unigolyn ar sail hirdymor.)Dyfyniad o children in the picture:

www.childreninthepicture.org.uk/au_socialmodel

Ffynonellau gwybodaeth

Byddant yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth gyfredol. Er enghraifft o:

- 1 Sefydliadau proffesiynol, e.e. cyrff proffesiynol, cymdeithasau masnachu ac undebau llafur
- 2 Cysylltiadau proffesiynol, e.e. cydweithwyr, mentor, goruchwyliwr, tiwtoriaid/ darlithwyr ac ymchwilyr
- 3 Ffynonellau ysgrifenedig, e.e. cylchgronau proffesiynol, adroddiadau ymchwil a dogfennau polisi
- 4 Rhwydweithiau fel grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, i ystyried materion diwylliannol, e.e. ymprydio, gwyliau a blaenoriaethau gofal.

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

Camau dilynol

Mae'n cyfeirio at asesu pellach, cyfeirio, ymyrryd neu gymorth, cyngor ac arweiniad i alluogi'r unigolyn a/ neu bobl eraill arwyddocaol i ymgymryd â'r gofal iechyd priodol

Goruchwyliaeth

Mae goruchwyliaeth yn golygu proses o adolygu penderfyniadau gwaith unigolyn mewn modd cefnogol er mwyn datblygu'i arfer. Gall fod yn ffurfiol, yn anffurfiol, gall gael ei darparu o fewn eich sefydliad, ei darparu o du allan i'ch sefydliad (Sylwer, cydnabyddir bod goruchwyliaeth o ran gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn wahanol i oruchwyliaeth gwaith gydag oedolion).

Cymorth

Mae'n cyfeirio at y cymorth a ddarparwch. Mae'n cynnwys: esboniad llafar, gwybodaeth ysgrifenedig, mynd gyda'r unigolyn neu drefnu i hyn ddigwydd.

Trawsnewidiadau

Newidiadau dyddiol ac ysbeidiol ym mywyd unigolyn yw trawsnewidiadau a all effeithio ar ei les, y ffordd y mae'n ymddwyn ac yn datblygu a'i allu i barhau i ddysgu ac ymdopi â newidiadau eraill.

Mae dau brif fath o drawsnewidiadau: mae'r cyntaf yn cynnwys trawsnewidiadau mewn bywyd bob dydd, er enghraifft gydag oedolion yn symud o ac i gartref/ y ddarpariaeth i ganolfan dydd, ac i blant, mynd o ac i gartref/ y ddarpariaeth i'r ysgol. Maent hefyd yn cynnwys newid gweithgareddau ac arferion yn ystod y dydd lle mae disgwyliaid a gofynion gwahanol gan y plentyn, yr unigolyn ifanc neu'r oedolyn.

Trawsnewidiad ysbeidiol yw'r ail, ac mae'n golygu newid sylweddol i'r unigolyn. Gellir rhannu'r trawsnewidiadau hyn i dri chategori. Yn gyntaf, y rheiny sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o bobl; er enghraifft, pan fydd pobl yn symud o un math o lety ac amgylchedd byw i un arall.

Yn ail, y rheiny sy'n cael eu rhannu gan nifer sylweddol o gyfoedion, fel teuluoedd yn gwahanu.

Yn drydydd, y rheiny sy'n drawsnewidiadau personol, ac ni all pobl eraill eu rhannu, nac ychwaith eu deall. I blant a phobl ifanc, bydd y trawsnewidiad cyntaf yn cynnwys trosglwyddo rhwng blynyddoedd yn yr un ysgol, neu goleg, neu drosglwyddo o un ysgol i ysgol arall. Fe allai hefyd gynnwys profiadau trawsnewid fel newidiadau corfforol, e.e. cychwyn glasgoed. Gall yr ail gynnwys eu rhieni'n cael ysgariad. Mae'r trydydd mewn gofal maeth neu ofal preswyl, cael rhiant neu ofalwr sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, neu fod yn ofalwr ifanc. (Ffynhonnell: Arweinyddiaeth a rheolaeth Rhif Cyfeirnod NOS:

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

LMC B3)

Gwerthoedd ac egwyddorion

Yw'r rheiny a bennir gan gyrff proffesiynol, y llywodraeth, eich cyflogwr, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr a chan gyrff cenedlaethol perthnasol.

Cysylltiadau Allanol

Bydd y **wybodaeth a'r ddealltwriaeth** ar gyfer y safon hon yn ymwneud â gofynion rheoleiddio penodol i wledydd a chodau ymarfer sy'n gymwys I gwmpas eich gwaith a rhai eich cydweithwyr. Bydd yn ymwneud hefyd â'r rôl a'r lefel cyfrifoldeb sydd gennych yn eich sefydliad er mwyn ymgymryd â gweithgareddau i gyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel

Mae arfer cymwys yn gyfuniad o gymhwyso sgiliau a gwybodaeth dan ddylanwad gwerthoedd a moeseg. Mae'r fanyleb hon yn nodi manylion y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae'n ofynnol eu cael i ymarfer yn gymwys ar gyfer y perfformiad a ddisgrifir yn y safon hon.

Wrth ddefnyddio'r fanyleb hon mae'n bwysig darllen y gofynion gwybodaeth mewn perthynas â disgwyliadau a gofynion eich rôl swydd.

Mae angen i chi ddangos eich bod yn gwybod, yn deall ac yn gallu cymhwyso'r canlynol yn ymarferol yn unol â'ch lefel profiad a'ch statws.

SFCSS4W

Nodi a chynorthwyo anghenion corfforol a synhwyrdd unigolion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth

Datblygwyd gan Skills for Care and Development

Fersiwn rhif 1

Dyddiad cymeradwyo Tachwedd 2008

Dyddiad adolygu a awgrymir Tachwedd 2013

Dilysrwydd Cyfredol

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Skills for Care and Development

RCU gwreiddiol SCDSS4

Galwedigaethau perthnasol Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddogion; Gweithwyr Iechyd Proffesiynol; Gwasanaethau Cysylltiedig Gofal Iechyd Personol a;

Cyfes/Set Gwasanaethau Synhwyrdd

Geiriau Allweddol